

Cofnodion cyfarfod Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Lun Mawrth 25ain yn Neuadd y Dref Dinbych am 7yh.

Presennol: Cyngorwyr Catherine Jones (Cadeirydd), Gaynor Wood Tickle, Roy Tickle, Rob Parkes, Colin L Hughes, Gaynor Morgan Rees, Rhys Thomas, Dyfrig Berry, Guto Lloyd-Davies, Alyn Ashworth, Philip Stevens & Irene Williams; & Jenny Barlow (Clerc y Dref)

Ymddiheuriadau: Cyng: Lara Pritchard & Glenn Swinger.

Gwestai gwadd: Dr Ian Gardner

Croesawodd y cadeirydd bawb i gyfarfod llawn y cyngor mis Mawrth.

180. Materion Brys - Dim.

181. Datganiad Diddordeb Personol:

Cynghorydd	Eitem	Personol neu Niweidiol
Gaynor Wood-Tickle	Eitem 12	Niweidiol
Roy Tickle	Eitem 12	Niweidiol

182. Cytunwyd a nodwyd Cofnodion Cyfarfod Llawn y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Lun Chwefror 25ain 2019. Dywedwyd wrth glerc y dref fod peth testun Cymraeg ar goll. Caiff hwn ei ddiwygio a'i ddiweddarau yn unol â hynny ar y wefan.

183. Materion yn codi -

Eitem 77, Cadarnhaodd clerch y dref fod gohebiaeth gyda CSDd yn parhau. Cadarnhaodd Ben Wilcox-Jones fod y pensaer a'r saer maen wedi ymweld â bydd yn darparu manylion a dyfynbrisiau cyn bo hir ar gyfer y plac.

184. Neuadd y Dref Dinbych

Gofynnodd y Cyng Catherine Jones bod eitem 12 yn cael ei chyflwyno, gan alluogi Dr Ian Gardner i adael yn dilyn y drafodaeth a'r diweddariad. Cytunwyd ar hyn gan y cynghorwyr tref.

Cytunodd y cynghorwyr tref y dylid caniatáu i'r Cynghorwyr Gaynor Wood-Tickle a Roy Tickle aros am y drafodaeth ond peidio â bod yn rhan o unrhyw benderfyniadau.

Cynhaliwyd cyfarfod o grŵp Dyfodol Newydd Cyngor Tref Dinbych ar 19 Mawrth. Roedd gan Gyngor Sir Ddinbych bryderon ynghylch yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal ym mis Ebrill / Mai yn ogystal â dyddiad ymgynghori'r 26.04.19. Byddent yn hoffi i'r dyddiad ymgynghori cyhoeddus fod yn ddiweddarach yn y flwyddyn pan oedd mwy o fanylion ar gael.

Cadarnhaodd cynghorwyr y dref eu bod yn hapus i'r ymgynghoriad ddigwydd ym mis Ebrill / Mai gan ganiatáu i drigolion Dinbych ac ymwelwyr â neuadd y dref gael dweud eu dweud. Roedd cynghorwyr tref Dinbych yn awyddus i'r ymgynghoriad fod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol felly bydd y dyddiad yn parhau fel y cynghorwyd yn flaenorol.

Dywedodd Dr Ian Gardner y gellid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arall yn ddiweddarach yn y flwyddyn petai Cyngor Tref Dinbych yn dymuno hynny, ond nid oedd hyn yn y briff achos busnes cychwynnol. Byddai costau ychwanegol ynghlwm wrth hyn pe bai angen hynny. Dywedodd Dr Gardner hefyd fod cymorth ar gael gyda Chadwyn Clwyd i ariannu'r

costau hyn. Bydd clerc y dref yn ymchwilio i hyn maes o law. Trafodwyd hyn hefyd yng nghyfarfod y 19eg, gofynnwyd i Gyngor Sir Ddinbych a fyddent yn ariannu ail ymgynghoriad.

Bydd yr holiadur yn cael ei fyrhau. Bydd yr holiadur ar gael mewn sawl fersiwn / fformat er mwyn sicrhau bod pob preswilydd yn cael y cyfle i gwblhau yn ogystal ag ymgorffori'r ddeddf Lles.

Gofynnodd clerc y dref am wirfoddolwyr ar gyfer y canlynol:

Mynychu Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y 26ain.

Ewch i archfarchnadoedd gyda holiaduron.

Cyfyngau cymdeithasol

Cadarnhaodd y Cyng Catherine Jones, Gaynor Morgan-Rees ac Alyn Ashworth bresenoldeb ar y 26ain.

Y Cynghorwyr Catherine Jones, Rob Parkes, Philip Stevens, Dyfrig Berry, Rhys Thomas ac Irene Williams i gynorthwyo gyda dosbarthu'r holiaduron.

Dywedodd y Cyng Catherine Jones, Rob Parkes a Guto Lloyd Davies eu bod yn hapus i gynorthwyo gydag ochr cyfyngau cymdeithasol yr ymgynghoriad.

Noder nad yw'r Cynghorwyr Gaynor Wood-Tickle a Roy Tickle yn gallu cynorthwyo oherwydd eu diddordeb personol gyda neuadd y dref.

Dywedodd Dr Gardner hefyd ei fod wedi caffael hen ddyluniadau yn neuadd y dref a byddent yn braf cael bod ar gael yn y sesiwn galw heibio ymgynghoriad cyhoeddus ar 26 Ebrill. Dywedodd y Cyng Guto Lloyd Davies ei fod yn hapus i argraffu'r rhain ar gyfer y digwyddiad.

185. Adroddiad y Maer:

Dosbarthwyd a nodwyd copi o benodiadau'r Maer.

Dywedodd y Cyng Catherine Jones ei bod wedi cael croeso mawr ym mhob digwyddiad y mae hi wedi ei fynychu. Aeth cyngerdd elusennol y Maer yn dda ac roedd yn noson hyfryd. Roedd y côr a'r unawdwyr yn wych. Nodwyd nad oedd llawer o gynghorwyr tref yn bresennol, byddai'n braf pe gallent fynychu digwyddiadau yn y dyfodol.

186. Llythyrau, E-byst a Hysbysiadau: I ystyried unrhyw ohebiaeth a dderbynnir.

a) Eisteddfod yr Urdd - cynnig nawdd. Roedd y cynghorwyr tref yn hapus gyda'r cynnig ac wedi gofyn i glerc y dref gadarnhau hyn gyda'r Urdd. Gofynnwyd hefyd i glerc y dref drefnu costau am faneri Cyngor Tref ar gyfer y digwyddiad.

b) E-bost o ddiolch gan Lynne Wilson - Carriageworks.

c) E-bost gan Waith Stryd CSDd - atal parcio dros dro. (Wedi'i ddosbarthu eisoes trwy e-bost 13.03.19).

d) Llythyr oddi wrth Llŷr Gruffydd AC - Trefniadau archwilio.

dd) Rhestr brisio arteffactau.

187. Cynllunio - Dim.

188. Cofnodion / Adroddiadau is-bwyllgorau'r cyngor.

Nodwyd y canlynol.

- a) Gwefr Ddiwifr yng Nghymru 25.01.19.
- b) Mynychodd clerc y dref ddigwyddiad CSDd - cynllunio canol trefi 07.03.19.
- c) Dywedodd y Cyngorydd Alyn Ashworth fod gŵyl gwrw mis Chwefror wedi mynd yn dda ac wedi adennill costau. Rhoddir mwy o gyhoeddusrwydd ar gyfer y digwyddiad y flwyddyn nesaf. Diolchodd y Cyng Ashworth i'r Cyng Dyfrig Berry am ei gymorth yn y digwyddiad.
- d) Dywedodd y Cyng Roy Tickle ei fod wedi mynychu'r cyfarfod Aged & Disabled ac y bydd y digwyddiad eleni yn cael ei gynnal ar 4 Gorffennaf gyda'r gost o £5.00 y tocyn.
- dd) Mynychodd y Cyng Roy Tickle hefyd gyfarfod y Trefi Ceiriog ar 20 Mawrth. Trafodwyd y cystadlaethau a thrafodwyd y cyllid. Maent yn trafod y posibilrwydd o godi tâl ar bob car am fynychu'r rali car ym mis Medi i leihau costau.
- e) Mynychodd y Cyng Philip Stevens gyfarfod Prosiect Ieuenctid. Mae'r prosiect teuluoedd cyntaf yn ehangu i gynnwys sesiwn gyda'r nos.

189. Adroddiadau gan Gynghorwyr Sir ar Faterion sy'n ymwneud a Dinbych yn unig:

Dywedodd y Cyng Rhys Thomas fod ganddo 4 pwynt i'w codi.

- a) Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn gwneud gwaith ail-wynebu yn Colomendy a Crud-Y-Castell.
- b) Newidiadau terfyn cyflymder yn dod yn fuan yn Y Green o 40 i 30 mya.
- c) Loriau sy'n mynd i ysbyty Gogledd Cymru a'r ffermydd gwynt - mae arwyddion newydd wedi'u rhoi ar waith.
- d) Ysbyty Dinbych - yn bwysig diogelu'r gwelyau yno. Beth yw dyfodol Ysbyty Dinbych? Beth fydd yn digwydd pan fydd y Royal Alex yn y Rhyl wedi cael ei adnewyddu? A fydd hyn yn cael effaith ar Ddinbych?

190. Cyfrifon: Cytunwyd ar y taliad canlynol.

1. Taliadau

a) Clwyd Wynne, taliad darlith Treftadaeth (Archif Dinbych) (Rhif siec 006711)	-	£40.00
b) Gwyn Jones, taliad darlith Treftadaeth (Rhif siec 006712)	-	£30.00
c) Catalyst - CAT adaptor (dyfynbris) (Rhif siec 006705)	-	£88.08
d) Catalyst – gliniadur diogel (dyfynbris) (Rhif siec 006706)	-	£92.40
dd) Catalyst – Chwefror wrth gefn (Rhif siec 006707)	-	£6.12
e) Sandra Williams, cyfieithu Rhagfyr - Chwefror (Rhif siec 006708)	-	£386.40
f) EON – Goleadau Nadolig Rhagfyr 18 (Rhif siec 006709)	-	£179.88
ff) Rogers Jones, prisiad arteffadctau (Rhif siec 006710)	-	£192.00

2. Unrhyw faterion ariannol eraill:

Dyfyniad a dderbyniwyd ac y cytunwyd arno:

Gwesteigr gwefan Cyngor y Dref - dyfynbris wedi'i ddiweddarau gan y Cyng Dyfrig Berry. Cytunwyd i dalu £30 am yr e-bost, £46 am y wefan, £40 i MAC3. Mae'r gweithgor TGCh yn gweithio tuag at gael parth e-bost Cymraeg, a bydd hyn yn golygu costau ychwanegol o £80.00. Gohiriwyd hyn tan y cyfarfod cyn y gyllideb yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

191. Neuadd y Dref Dinbych - wedi ei drafod - eitem 185.

192. Cyfethol.

Derbyniwyd 2 gais ac yn dilyn y bleidlais enwebwyd Rachael Ayres yn gynghorydd tref newydd ei benodi ar gyfer Dinbych Uchaf. Bydd clerc y dref yn cysylltu â Rachael ac yn gwneud trefniadau i'r ffurflen dderbyn gael ei chwblhau yn ogystal â threfnu cyfnod sefydlu.

Gadawodd y Cyng Philip Stevens y cyfarfod am 8.37pm.

Gadawodd y Cynghorwyr Gaynor Wood-Tickle a Roy Tickle y cyfarfod am 8.40pm.

193. Taliadau cydnabyddiaeth.

Darllenwyd papurau 2019/20 drafft a chytunodd y cyngor tref i dderbyn yr holl benderfyniadau arfaethedig.

Gosodwyd lwfans y Maer (47) ar £1,400 a lwfans y Dirprwy Faer (48) am £300.00.

Enwebwyd y Maer i dderbyn y lwfans o £500.00 (41).

Cadarnhaodd clerc y dref hefyd y derbyniwyd diweddariad yn dilyn cyfarfod yr SLCC ar 14 Mawrth yn cadarnhau bod yn rhaid prosesu'r lwfansau trwy CThEM. Roedd taliadau 2018/19 yn y broses o gael eu talu drwy'r gyflogres a HMRC. Caiff y taliadau eu diweddarau ar gofnodion Amgylchedd a Chyllid mis Mawrth.

194. Ardal arfaethedig ar Gerdded Cŵn.

Derbyniwyd cadarnhad bod £5,000 o'r cymorth symiau cymudol wedi'i ddyfarnu i Gyngor Tref Dinbych. Mae dyddiad ar gyfer derbyn y cymorth ym mis Medi 2019. Dywedodd clerc y dref fod y dyddiad hwn yn rhy fuan a bydd yn cysylltu â Chyngor Sir Ddinbych i weld a ellir newid y dyddiad hwn. Gosodwyd y costau a dderbyniwyd ar gyfer yr ardal cerdded cŵn ym mis Awst 2018, ond ar ôl cyfarfod safle mis Ionawr, bydd angen ei newid. Bydd clerc y dref yn cysylltu â Chyngor Sir Ddinbych ym mis Hydref am ddiweddariad.

195. Noson Tan Gwylt - diweddariad.

Cynhaliwyd cyfarfod yn gynharach yn y dydd a chadarnhawyd bod Uproar wedi newid dwylo, ond ni fydd hyn yn cael effaith ar yr arddangosfa. Rydym yn aros am fanylion ar gyfarfod 'SAG' gyda'r Sir.

Dywedodd clerc y dref hefyd fod angen cwblhau asesiad risg proffesiynol i sicrhau bod pob agwedd ar lechyd a Diogelwch yn cael ei dilyn. Byddai'n fuddiol i Gyngor Tref Dinbych gael gweithiwr proffesiynol i gwblhau'r rhain ar ran y Cyngor Tref. Gofynnwyd i glerc y dref wahodd Mr David Phillips i gyfarfod mis Ebrill i roi trosolwg. Mae Mr Phillips eisoes yn gweithio gyda chynghorau tref (Conwy, Llandudno a Bae Colwyn) yn ogystal â threfnwyr sioe Dinbych a Fflint.

196. Goleuadau Nadolig.

Dywedodd clerc y dref fod Blachere wedi ymweld yn ddiweddar ac y bydd yn rhoi costau ar gyfer coed math artiffisial ar y gylchfan. Dywedodd y clerc hefyd y byddai'n fuddiol caffael contract goleuadau Nadolig i weld a yw Cyngor Sir Ddinbych yn gystadleuol. Gofynnwyd i'r clerc gaffael dyfynbrisiau.

197. Gardd Goffa Dr Evan Pierce

Dywedodd Clerc y Dref fod cymydog i'r gerddi wedi cysylltu i ddweud bod yna gangen sy'n gordo ac yn achosi problemau. Mae'r clerc eisoes wedi cysylltu â Chyngor Sir Ddinbych am arweiniad. Gofynnwyd i glerc y dref gysylltu â Mr Peter Spencer am adroddiad ar y goeden dan sylw yn ogystal â dyfynbris i weithredu unrhyw waith perthnasol.

198. Clerc y Dref - Gwybodaeth wedi'i ddiweddarau

- a) Carys - mae cyfnod prawf o 6 mis wedi'i gwblhau ac mae Carys bellach yn aelod staff parhaol.
- b) Cynyddiad cyflog staff blynyddol - dyrennir un band talu i'r ddau weithiwr yn eu cyflog blynyddol ym mis Ebrill. Bydd clerch y dref yn cysylltu â'r darparwr cyflogres gyda'r manylion diweddaraf.
- c) Prisio arteffactau - mae hwn bellach wedi'i gwblhau a'r rhestr lawn wedi'i derbyn. Dylai unrhyw gynghorydd tref sydd am weld y rhestr gysylltu â chlerch y dref yn uniongyrchol.
- d) Dosbarthwyd dyddiadau cyfarfodydd diwygiedig 2019/20.

Caeodd y cadeirydd y cyfarfod am 9.35yh.

Arwyddwyd:.....(cadeirydd)

Dyddiad.....